Estyn



# **Adroddiad crynodeb i rieni a gofalwyr** ar Ysgol Gynradd Coryton

**Dyddiad yr arolygiad: Mehefin 2023**

gan Estyn, Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

# Trosolwg

Mae'r disgyblion yn Ysgol Gynradd Coryton yn mwynhau dod i'r ysgol ac yn cymryd rhan mewn gwersi a gweithgareddau yn llawn brwdfrydedd. Mae staff yn adnabod eu disgyblion yn dda ac yn gweithio'n effeithiol i sicrhau eu bod yn hapus a diogel pan fyddant yn yr ysgol. Mae cymorth yr ysgol ar gyfer lles disgyblion yn gryf ac mae staff yn gweithio'n llwyddiannus i ddarparu ar gyfer anghenion disgyblion unigol a mynd i'r afael ag unrhyw broblemau neu ofidiau a allai fod ganddynt. Mae'r ysgol yn ymwybodol o'r heriau a allai fod yn wynebu rhai teuluoedd o ganlyniad i amddifadedd ac yn gweithio'n ystyriol ac yn sensitif i sicrhau nad yw hyn yn cael effaith negyddol ar brofiadau dysgu eu plant.

Mae athrawon yn cynllunio gweithgareddau dysgu difyr sy'n aml yn ennyn diddordeb y disgyblion ac yn eu gwneud yn awyddus i ddysgu. Maent yn cynnwys disgyblion yn dda mewn cynllunio testunau, gwersi a gweithgareddau dysgu, a dyma un o'r rhesymau y mae disgyblion yn gweld eu gwersi mor ddiddorol. Fodd bynnag, nid yw'r gweithgareddau y mae athrawon yn eu cynllunio bob amser yn canolbwyntio'n ddigon clir ar y camau nesaf yn nysgu'r disgyblion. Yn ogystal â hyn, nid yw'r cwricwlwm yn sicrhau bod disgyblion yn adeiladu'n effeithiol ar eu dysgu blaenorol wrth iddynt symud trwy'r ysgol. Yn gyffredinol, mae disgyblion yn gwneud cynnydd da â'u medrau rhifedd a chreadigol ond nid yw eu gallu i ddeall a defnyddio'r Gymraeg wedi'i ddatblygu'n ddigonol.

Mae'r strwythur arweinyddiaeth ar gyfer y ffederasiwn yn mynd trwy gyfnod o newid. Mae'r pennaeth yn newydd i'w rôl, ar ôl bod yn ddirprwy bennaeth ar gyfer y ffederasiwn yn y gorffennol. Trwy adeiladu ar ei swydd flaenorol, mae wedi parhau i ddatblygu perthnasoedd gweithio cadarnhaol yn llwyddiannus gyda staff a rhieni ar draws y ddwy ysgol. Mae arweinwyr a llywodraethwyr yn awyddus i wneud y gorau o fanteision bod yn rhan o ffederasiwn, er enghraifft trwy ddefnyddio cryfderau sy'n bodoli mewn un darparwr i wneud gwelliannau yn y llall. Maent yn ymwybodol nad yw cyfrifoldebau arwain yn cael eu dosbarthu'n ddigon cyfartal nac yn ddigon effeithiol ar hyn o bryd, a bod gormod o feysydd pwysig yn cael eu goruchwylio gan y pennaeth ar hyn o bryd, yn ogystal â'i rôl strategol ehangach.

# Argymhellion

**A1** **Sicrhau bod cyfrifoldebau arwain yn cael eu dosbarthu'n effeithiol ac yn canolbwyntio ar ddeilliannau ar gyfer disgyblion**

**A2** **Gwella ansawdd a chysondeb yr addysgu**

**A3** **Sicrhau bod y cwricwlwm yn datblygu medrau a gwybodaeth disgyblion yn raddol ac yn bodloni gofynion statudol**

**A4** **Codi safonau yn y Gymraeg**

# Beth sy'n digwydd nesaf

**Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i ddangos sut bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion. Bydd Estyn yn cydweithio â'r awdurdod lleol i adolygu cynnydd yr ysgol. Dyma'r gweithgarwch dilynol ysgafnaf, gan nad yw'n statudol.**



# Cyd-destun yr ysgol

| | |
|---|---|
| Enw'r darparwr | Ysgol Gynradd Coryton |
| Awdurdod lleol | Cyngor Caerdydd |
| Iaith y darparwr | Saesneg |
| Math o ysgol | Cynradd |
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 209 |
| Disgyblion o oed ysgol statudol | 164 |
| Nifer yn y dosbarthiadau meithrin | 30 |
| Canran y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd (Canran genedlaethol y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd yn y sector cynradd yw 23.0%) | 19.1% |
| Canran y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol (a) (Canran genedlaethol y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol yn y sector cynradd yw 16.1%) | 10.4% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Cymraeg ar yr aelwyd | 0.0% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol | 4.3% |
| Dyddiad penodi'r pennaeth | 17/04/2023 |
| Dyddiad arolygiad blaenorol Estyn (os yw'n berthnasol) | 03/02/2014 |
| Dyddiad dechrau'r arolygiad | 05/06/2023 |

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2023: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 07/08/2023

Sylwer, efallai na fydd y ffotograffau sy'n cael eu dangos yn rhai o'r ysgol sy'n destun yr adroddiad hwn.